| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **CHWEFROR 25 2010** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2010-2013** |
| **AWDUR:** | **IWAN TREFOR JONES, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO CYNLLUN IAITH DIWYGIEDIG I'W MABWYSIADU** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofyn statudol, bydd angen adolygu Cynllun Iaith y Cyngor.

1.2 Mae'r Cynllun newydd a atodir ac a gyflwynir i'ch sylw yn seiliedig ar Gynllun Iaith 2006-2009, ond gyda rhai newidiadau ac ychwanegiadau: Mae rhai o'r rhain yn diweddaru'r Cynllun, gan nodi newidiadau o ran gofynion neu strwythurau, ond ceir rhai newidiadau ac ychwanegiadau mwy arwyddocaol, a cheir rhagor o wybodaeth ar y rhain dan y pennawd **Prif Newidiadau** isod. Nodir y prif newidiadau mewn print bras ar y Cynllun a atodir.

1.3 Bu cyd-weithio agos gyda'r Swyddogion perthnasol lle bo'n addas; e.e. gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar y pennawd Staffio.

1.4 Trafodwyd y gwaith gydag Aelodau'r Is-Bwyllgor Iaith mewn dau weithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2009. Bu hyn yn gyfle i'r Aelodau gael gosod blaenoriaethau a mynegi barn ar gynnwys y Cynllun diwygiedig. Cafodd y draft a gyflwynir cymeradwyaeth yr Is-Bwyllgor Iaith ar Ionawr 26.

1.5 Cyflwynwyd y ddogfen ddrafft i'r Grŵp Rheoli yn ystod mis Rhagfyr, ac anfonwyd copi o'r draft i'r prif fudiadau lleol, gan ofyn am eu sylwadau erbyn canol mis Chwefror .

## 2. Prif Newidiadau

| Cyf y Cynllun | Cefndir | Cynnig |
|---|---|---|
| 2.4.1-2.4.3 | Roedd y Cynllun blaenorol yn cyfeirio at wasanaethau a gynhelir ar ran y Cyngor gan eraill, partneriaethau a noddi a grantiau. Teimlwyd fod bellach angen cymalau ar gyd-ddarparu er mwyn cyd-fynd a gofynion y dyfodol | Cynigir y cymalau newydd ar gyfer cyfarfod datblygiadau mewn cyd-ddarparu dros dair blynedd nesaf. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyf y Cynllun** | **Cefndir** | **Cynnig** |
| 2.8.3 | Nid oedd y Cynllun blaenorol yn caniatáu i ni ariannu deunydd na digwyddiadau uniaith Gymraeg | Nodir ein parodrwydd i ystyried noddi deunydd neu weithgaredd uniaith Gymraeg |
| 2.8.9. | Nid oedd y Cynllun blaenorol yn datgan ein parodrwydd i atal arian neu ddod a contact i ben ar sail diffyg cydymffurfiaeth ieithyddol | Nodir ein parodrwydd i atal ar sail diffyg cydymffurfiaeth, ond gyda phwyslais cryf ar ein parodrwydd i gynorthwyo a chydweithio |
| 3.1.4 | Dros y cyfnod 2006-09, cafwyd nifer o gwynion ynglŷn ag iaith wallus mewn llythyrau a dogfennau cyhoeddus y Cyngor | Pwyslais ar ddefnyddio CySill a Chymraeg Clir. Y Grŵp Rheoli'n credu mai cyfrifoldeb Rheolwyr unigol yw cywirdeb dogfennau |
| 3.3.5 | Nid oedd y cynllun blaenorol yn sôn am unrhyw ddisgwyl i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd allanol | Datganiad y byddwn yn annog staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau a chynadleddau allanol |
| 3.4.6 | Teimlwyd ei fod hanfodol bwysig nodi dewis iaith ar ffeiliau personol er mwyn sicrhau dewis iaith y cleient | Disgwyl i nodi dewis iaith ar bob ffeil personol |
| 4.1.4 | Nid oedd son am ddewis iaith mewn fformatau amgen yn y Cynllun blaenorol | Cadarnhau Bod dewis iaith yn ymestyn i wahanol fformatau |
| 4.1.3. | Gweler 3.1.4. uchod | |
| 6.4 | Roedd lle i gredu bod yna risg ynghlwm a rhannu rhai negeseuon allweddol yn y Gymraeg yn unig | Caniatáu i negeseuon allweddol fod ar gael yn ddwyieithog |
| 7.3. | Teimlwyd bod angen adolygu ein trefniadau staffio, ac yn enwedig lefelau ieithyddol swyddi; y bwriad tu ôl i'r cymalau yma yw adolygu ac ehangu ar y matrics gofynion iaith sydd eisoes mewn bodolaeth | Ymrwymo i adolygu ein lefelau ieithyddol er mwyn cryfhau ac egluro'r gofynion ar gyfer pob swydd |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyf y Cynllun** | **Cefndir** | **Cynnig** |
| 7.4. | Angen diweddaru'r cymalau ar hysbysebu am staff | Mae'r cymalau hysbysebu am staff yn ehangu ar gynnwys y Cynllun blaenorol ac yn cyd-fynd a'r newidiadau a nodir yn 7.3.uchod |
| 7.5.4-7.5.5 | Nid oedd son am Fentoriaid Iaith na Gwobr Dafydd Orwig yn y Cynllun blaenorol | Rhoi sylw ffurfiol i'r elfennau yma o fewn y Cynllun |
| 8 | Nid oedd y Cynllun blaenorol yn amlinellu'n llawn ein trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion iaith | Pennawd yn amlinellu ein trefniadau parthed cwynion iaith |

## 3. Argymhellion

3.1. Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun Iaith ddiwygiedig